

**NHS Wales**  
**Test, Trace, Protect**  
#keepSwanseaAndNPtsafe

**Profi, Olrhain, Diogelu**  
**GIG Cymru**  
#CadwAbertaweaCnP TynDdiogel

## Trosolwg Profi, Olrhain a Diogelu (TTP)

### Gwybodaeth ar gyfer Staff/Rhieni/Gwarcheidwaid

Bydd yr wybodaeth ganlynol yn egluro beth i'w ddisgwyl os cewch chi alwad ffôn gan aelod o'r tîm TTP.

Gallwn ni gysylltu â chi os byddwch chi neu berson ifanc o dan oed yn eich teulu yn:

- **Achos (h.y. rydych chi wedi cael prawf cadarnhaol am y coronafeirws) NEU YN**
- **Gyswllt** – sef person sydd wedi bod mewn cysylltiad â'r achos yn ystod y cyfnod 48 awr cyn i symptomau'r achos a gadarnhawyd ddod i'r golwg, a 10 diwrnod wedi hynny **neu** ddyddiad casglu'r sampl (os nad oes symptomau gan yr achos). Dyma'r gwahanol fathau o gyswllt:

**Cyswllt aelwyd:** Rhai sy'n byw neu'n treulio cyfnod sylweddol o amser ar yr un aelwyd e.e. rhai sy'n byw ac yn cysgu yn yr un cartref. Sefyllfaoedd eraill posibl fyddai llety sy'n rhannu cegin/ystafell ymolchi. Ymhlith y bobl eraill bosibl mae pobl sydd wedi glanhau aelwyd/gofalwr lle mae achos yn byw sydd heb ddefnyddio cyfarpar diogelu personol etc.

#### **Cyswllt nad yw'n rhan o'r aelwyd:**

**Cyswllt uniongyrchol:** Cyswllt wyneb yn wyneb ag achos am unrhyw gyfnod, gan gynnwys peswch drostyn nhw neu siarad â nhw. Mae hyn yn cynnwys dod i gysylltiad o fewn 1 metr am 1 funud neu fwy.

**Cyswllt agosrwydd:** Cyswllt agos estynedig (o fewn 1 i 2 fetr am fwy na 15 munud) ag achos neu wedi teithio mewn cerbyd bach gydag achos.

**Cysylltiadau awyren achosion sy'n dychwelyd o wledydd ag esemptiad:** Teithwyr sy'n eistedd o fewn dwy sedd i bob cyfeiriad (h.y. y 2 sedd y naill ochr a'r llall, ac yna'r 2 res o flaen a'r tu ôl i'r

seddau hyn) a'r criw caban oedd yn gweini ar yr ardal lle roedd yr achos yn eistedd.

**Teithwyr rhyngwladol:** Bydd pob teithiwr rhyngwladol yn cael eu hystyried yn gysylltiadau, ac eithrio'r rhai sy'n dychwelyd o wledydd ar restr esemptio. Mae hyn yn berthnasol hyd yn oed os nad yw'n hysbys eu bod wedi cael cyswllt aelwyd neu gyswllt nad yw'n rhan o'r aelwyd gydag achos.

### **Yr Alwad Ffôn**

- Bydd galwadau'n dod yn bennaf o'r rhif hwn: 02921 961133. Ambell waith gall fod angen i'n staff wneud galwad o rif arall.
- Os byddwch chi'n colli galwad gan y gwasanaeth, fe gewch alwad arall. Mae'n bwysig eich bod chi'n ateb galwadau gan Wasanaeth Profi, Orlhain, Diogelu GIG Cymru yn brydlon. Fydd dim neges yn cael ei gadael i chi, ond os ffoniwch chi'r rhif yn ôl, byddwch yn clywed neges yn cadarnhau mai gwasanaeth Profi, Orlhain, Diogelu GIG Cymru fu'n galw. Dim ond galwadau allan sy'n bosibl o'r rhif yma, felly fyddwch chi ddim yn gallu siarad â swyddog olrhain cysylltiadau, a bydd angen i chi aros am alwad yn ôl yn ddiweddarach, neu o bosib y diwrnod canlynol.

### **Gwybodaeth fydd yn cael ei chasglu dros y ffôn**

- Bydd angen i ni wybod ble mae achos yn byw a phwy sy'n byw gyda nhw, h.y. cysylltiadau aelwyd.
- Bydd angen i ni wybod ble mae achos wedi bod yn ystod eu cyfnod heintus, ac â phwy buon nhw mewn cysylltiad.
- Bydd hyn yn cynnwys cysylltiadau ysgol a chysylltiadau cymdeithasol. Byddwn ni hefyd yn cysylltu â'r ysgol dan sylw. Byddwn ni'n archwilio natur y cyswllt, a bydd yn bwysig nodi ai cyswllt aelwyd, uniongyrchol neu agosrwydd oedd hwn.
- Symptomau a phryd daeth symptomau i'r amlwg neu ddyddiad prawf cadarnhaol os nad oes symptomau. Bydd angen i ni wybod a yw'r person wedi bod i siopa, i'r ysgol, i'r gwaith, i dafarnau/fwytai, i bartïon, i gaffes, ffreuturau etc. Bydd yr wybodaeth hon yn ein galluogi i adnabod clystyrau.
- Unrhyw gwestiynau perthnasol eraill ynghylch ble maen nhw wedi bod/pwy maen nhw wedi gweld yn ystod dyddiadau penodol pan oedden nhw'n heintus.

### **Beth fyddan nhw DDIM yn gofyn**

- Fydd swyddogion olrhain cysylltiadau ddim yn gofyn am unrhyw wybodaeth ariannol, manylion banc, cyfrineiriau nac unrhyw ddata arall heblaw'r wybodaeth a nodwyd uchod fel rhan o'r broses olrhain cysylltiadau.
- Os bydd gennych chi unrhyw amheuan, ddylech chi ddim rhoi'r wybodaeth.
- Dylai pobl fod yn wiliadwrus am unrhyw arwyddion o seiber-dwyll, camarwain, pysgota am wybodaeth neu dwyll o unrhyw fath.  
I gael rhagor o wybodaeth, gweler y [rhybudd ynghylch ymgeisiau i dwyllo](#).

### **Rhagor o wybodaeth.....**

I gael rhagor o wybodaeth, sy'n cael ei diweddarau'n barhaus, cyfeiriwch at:

<https://gov.wales/coronavirus>

Mae'r ddogfen uchod yn cynnwys canllawiau mwy penodol ar gyfer gwahanol sefyllfaoedd.

### **Arhoswch gartref os bydd symptomau gennych chi neu unrhyw un yn eich aelwyd estynedig:**

- tymheredd uchel
- peswch newydd parhaus
- colli'r gallu i aroglu neu flasu (anosmia)

### **Os cewch rai neu'r cyfan o'r symptomau hyn – mynnwch brawf...**

I gael gwybod sut mae cael prawf, ewch i:

<https://sbuhb.nhs.wales/coronavirus-covid-19/coronavirus-covid-19/test-trace-protect/>

I gael rhagor o wybodaeth am gyfrifoldebau cyflogwyr i helpu gyda phroffion coronafeirws ac olrhain cysylltiadau, dilynwch y ddolen ganlynol.

<https://gov.wales/employers-coronavirus-test-trace-protect-guidance>

## **Cadw Cymru'n Ddiogel**

- cadwch bellter cymdeithasol bob tro
- golchwch eich dwylo'n rheolaidd
- os byddwch chi'n cwrdd ag aelwyd arall, tu allan i'ch aelwyd estynedig, arhoswch yn yr awyr agored
- gweithiwch gartref os gallwch chi